# ADRODDIAD YMGYNGHORI

**Cynnig i newid yr ystod oedran o 4-11 i 3-11 yn Ysgol Gynradd Pen-bre**

# Atodiad A

## Rhestr o'r rhai a ymatebodd i'r Ddogfen Ymgynghori

**<u>Ysgol Gynradd Pen-bre – rhestr o'r sylwadau a ddaeth i law</u>**

**Ni ddaeth unrhyw sylwadau i law**

# Atodiad B

## Crynodeb o'r sylwadau a ddaeth i law ar ôl i'r Ddogfen Ymgynghori gael ei chyhoeddi ac ymatebion cysylltiedig yr Awdurdod Lleol

# Atodiad C

## YMATEB ESTYN I’R DDOGFEN YMGYNGHORI

**Ymateb Estyn i'r cynnig i newid ystod oedran Ysgol Gynradd Pen-bre o 4 – 11 i 3 – 11**

Paratowyd yr adroddiad hwn gan Arolygwyr Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru.

O dan delerau Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 a'i Chod cysylltiedig, mae'n ofynnol i gynigwyr anfon dogfennau ymgynghori at Estyn. Fodd bynnag, nid yw Estyn yn gorff y mae'n ofynnol iddo weithredu yn unol â'r Cod ac nid yw'r Ddeddf yn gosod unrhyw ofynion statudol ar Estyn o ran materion trefniadaeth ysgolion. Felly, fel corff yr ymgynghorir ag ef, bydd Estyn yn rhoi eu barn ar rinweddau cyffredinol cynigion trefniadaeth ysgolion yn unig.

Mae Estyn wedi ystyried yr agweddau addysgol ar y cynnig ac mae wedi llunio'r ymateb canlynol i'r wybodaeth a ddarparwyd gan y cynigiwr a gwybodaeth ychwanegol arall megis data gan Lywodraeth Cymru a barn y Consortia Rhanbarthol sy'n darparu gwasanaethau gwella ysgolion i'r ysgolion yn y cynnig.

**Cyflwyniad**

Mae'r cynnig gan Gyngor Sir Caerfyrddin

Y cynnig yw newid ystod oedran Ysgol Gynradd Pen-bre o 4 – 11 i 3 - 11 er mwyn gallu cynnwys darpariaeth meithrin ar safle'r ysgol.

**Crynodeb / Casgliad**

Mae'r cynigiwr wedi nodi'n glir fuddion newid ystod oedran Ysgol Pen-bre o 4-11 i 3-11 a barn Estyn yw bod y cynnig hwn yn debygol o gynnal safonau presennol addysg yn yr ardal, o leiaf.

**Disgrifiad a buddion**

Mae'r cynigiwr wedi nodi rhesymwaith clir ar gyfer y cynnig. Ymddengys ei fod yn cyd-fynd â chyfrifoldeb cyfreithiol y cynigiwr i adolygu'r nifer a'r math o ysgolion sydd ganddo yn yr ardal ac a yw'n gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau a chyfleusterau i ddarparu addysg a dysgu i ddisgyblion ai peidio.

Mae'r cynigiwr yn disgrifio'n glir y budd a ddisgwylir o'r cynnig, sef sicrhau parhad dilyniant i'r disgyblion hynny sy'n manteisio ar raglen Dechrau'n Deg Pen-bre ar safle'r ysgol hyd nes eu bod yn dair oed, ond sydd wedyn yn gorfod mynd o'r safle am bron blwyddyn hyd nes iddynt gael eu derbyn i'r ysgol. Nid yw'r cynigiwr wedi nodi unrhyw anfanteision sy'n gysylltiedig â'r cynnig.

Nid yw'r cynigiwr wedi nodi unrhyw risgiau sy'n gysylltiedig â'r cynnig. Fodd bynnag, nid yw wedi disgrifio'n glir sut y caiff y ddarpariaeth meithrin ei chynnwys ar safle ysgol Pen-bre. Hefyd nid yw wedi ystyried y risg y gall

rhieni anfon eu plant at y darparwyr meithrin eraill yn yr ardal yn hytrach nag ysgol gynradd Pen-bre.

Nid yw’r cynigiwr wedi nodi unrhyw ddewisiadau eraill ar wahân i’r cynnig. Mae’n rhestru darparwyr meithrin/ysgol eraill y gallai’r cynnig hwn effeithio arnynt. Fodd bynnag, nid yw’r cynigiwr yn cyflwyno digon o sylwadau ar sut yr effeithir ar y darparwyr hyn. Mae’r cynigiwr wedi rhoi ystyriaeth addas i effaith y cynnig ar drefniadau teithio dysgwyr. Mae’n dweud y caiff y trefniadau cludiant eu gwneud yn unol â pholisi’r Cyngor ar gludiant rhwng y cartref a’r ysgol. Ni fydd unrhyw newid mewn amserau teithio i ddisgyblion sy’n byw yn y dalgylch.

Mae’r cynigiwr wedi darparu rhagamcanion o nifer disgyblion tan fis Ionawr 2020. Mae’r rhain yn dangos y bydd cynnydd yn nifer y lleoedd gwag o 20 lle gwag ym mis Ionawr 2015 i 22 lle gwag ym mis Ionawr 2020 yn yr ysgol. Yna mae’r cynigiwr yn honni bod lle yn yr ysgol i 30 disgybl Meithrin CALI a disgyblion meithrin rhagamcanol yn yr ysgol. Mae’n aneglur sut y daethpwyd at y ffigur hwn.

Nid ymddengys fod y cynigiwr wedi rhoi ystyriaeth ddigonol i effaith y cynnig ar y ddarpariaeth Gymraeg yn yr awdurdod lleol. Mae wedi rhestru tair ysgol gynradd gyfrwng Cymraeg y gallai’r cynnig hwn effeithio arnynt, ond nid yw wedi darparu digon o sylwadau i ddangos ei fod wedi cymryd i ystyriaeth effaith y cynnig ar yr ysgolion hyn. Mae hefyd wedi rhestru darparwyr meithrin o fewn milltir i’r ysgol, ond nid yw wedi cadarnhau ai cyfrwng Saesneg neu gyfrwng Cymraeg yw’r rhain na pha effaith y gallai’r cynnig ei chael ar y darparwyr hyn.

**Agweddau addysgol ar y cynnig**

Nid yw’r cynigiwr wedi darparu manylion ynghylch deilliannau perfformiad disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2. Mae’r cynigiwr wedi rhoi ystyriaeth addas i adroddiad arolygu diweddaraf Estyn oedd yn dda yn gyffredinol. Yna mae’r cynigiwr yn dod i’r casgliad, yn rhesymol, mai effaith fwyaf tebygol y cynnig fyddai gwella’r amgylchedd a phrofiad dysgu a darparu Cyfnod Sylfaen mwy cydlynus. Byddai’n gwneud hyn trwy waredu cyfnod pontio rhwng y meithrin a’r derbyn ac felly sicrhau dilyniant dysgu i’r disgyblion.

Mae’r cynigiwr wedi darparu manylion categori’r ysgol o dan y system genedlaethol ar gyfer categoreiddio ysgolion. Mae wedi cael ei rhoi yn y categori gwyrdd o ran cefnogaeth. O hynny mae’r cynigiwr yn casglu ei bod yn ysgol effeithiol iawn sy’n cael ei rhedeg yn dda, fod ganddi arweinyddiaeth gref a’i bod yn glir ynghylch ei blaenoriaethau ar gyfer gwella.

Mae’r cynigiwr wedi cynnal asesiad defnyddiol o’r effaith ar y gymuned ac asesiad o’r effaith ar gydraddoldeb. Ymddengys fod y rhain yn dangos mai ychydig iawn o effaith fydd ar grwpiau agored i niwed. Mae’r cynigiwr hefyd yn dweud na fydd unrhyw newid i’r ddarpariaeth bresennol a gynigir i ddisgyblion ag anghenion addysgol arbennig yn yr ysgol.

Nid yw'r cynigiwr wedi cynnig sylwadau yn nogfen y cynnig ar sut y bydd unrhyw darfu posibl ar ddysgwyr yn cael ei leihau i'r eithaf.

**<u>Ymateb yr Awdurdod Lleol i Estyn</u>**

**Nid yw'r cynigiwr wedi nodi unrhyw risgiau sy'n gysylltiedig â'r cynnig. Fodd bynnag, nid yw wedi disgrifio'n glir sut y caiff y ddarpariaeth meithrin ei chynnwys ar safle ysgol Pen-bre. Hefyd nid yw wedi ystyried y risg y gall rhieni anfon eu plant at y darparwyr meithrin eraill yn yr ardal yn hytrach nag ysgol gynradd Pen-bre.**

Cafodd Risgiau a Gwrthfesurau eu cynnwys yn y Wybodaeth Ychwanegol a anfonwyd at yr holl Randdeiliaid trwy e-bost ar 22/12/15.

**Nid yw'r cynigiwr wedi cynnig sylwadau yn nogfen y cynnig ar sut y bydd unrhyw darfu posibl ar ddysgwyr yn cael ei leihau i'r eithaf.**

Bydd yr awdurdod yn gweithio gyda'r disgyblion i sicrhau pontio ac integreiddio didrafferth i'r ysgol.

# Atodiad D

## Ymgynghoriad â'r disgyblion

Cynhaliwyd yr ymgynghoriad ar 3 Chwefror 2016

gan

Mrs Mari Owen

Cynghorydd Cyswllt Her

Cyngor Sir Caerfyrddin

# Cyngor Sir Caerfyrddin

## Gwrando ar 'Lais y Dysgwr'

**Ysgol – Pen-bre**

**Dyddiad: - 3 Chwefror 2016**

**Cynhaliwyd y sesiwn gan Mari Owen**

**Cyfwelwyd â Chyngor yr Ysgol a disgyblion hŷn**

| **1. Hoffech chi fod yn rhan o ysgol fwy sydd â mwy o ddisgyblion?** |
|---|
| **Sylwadau**<br><br>• Hoffem, oherwydd mwy o bobl felly mwy o ffrindiau<br>• Hoffem, oherwydd byddai mwy o athrawon |

| **2. Ydych chi'n meddwl ei bod yn syniad da i'r ysgol ddod yn ysgol 3-11?** |
|---|
| **Sylwadau**<br><br>• Ydyn, oherwydd mae plant yn datblygu mwy o sgiliau yn ifanc os ydyn nhw'n dechrau yn yr ysgol yn 3 oed<br>• Ydyn, oherwydd byddai disgyblion yn fwy hyderus yn ifancach |

| **3. Beth fyddai manteision ysgol 3 – 11? Beth fyddech chi'n edrych ymlaen ato fwyaf?** |
|---|
| **Sylwadau**<br><br>• Bydden ni'n edrych ymlaen at fod yn Fydiaid er mwyn gweithio gyda phlant 3 oed; byddai mwy o gyfleoedd i fod yn fydi. |

| **4. Oes unrhyw anfanteision? Oes unrhyw beth y byddech chi’n poeni amdano?** |
| --- |
| **Sylwadau**<br>• Mae rhai plant yn rhy ifanc neu’n rhy anaeddfed i ddechrau yn yr ysgol yn 3 oed ond byddai dewis i rieni<br>• Mae caban Dechrau’n Deg ar yr iard yn cymryd rhywfaint o’r lle yno yn anfantais ond nid dyna le’r mae’r adran meithrin |